Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee

Ymchwiliad i Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach: Cylch Gorchwyl | Inquiry on the Impact of Brexit on Higher and Further Education

IB-04

Ymateb gan: Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

Response from: Cytûn: Churches Together in Wales

Canlyniadau dysgwyr a chyflogadwyedd

Cwestiwn 1: Beth yw'r heriau posibl i lwyddiant dysgwyr a'u cyflogadwyedd yn y dyfodol ar ôl Brexit, a beth a wneir a beth fydd yn bosibl ei wneud i oresgyn yr heriau hyn?

Mewn rhai meysydd, fe allai lleihad yn y cyfleoedd i gyflawni rhannau o gyrsiau dramor effeithio ar gyflogadwyedd (gweler Cwestiwn 2). Mae rhai cymwysterau yn cael eu cydnabod ledled Ardal Economaidd Ewrop trwy'r Gyfarwyddeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol o Gymwysterau Proffesiynol. Y perygl yw, pe collid cydnabyddiaeth gilyddol gyda Brexit, y gallai fod yn anodd i rai graddedigion fwrw ymlaen â'u dewis yrfaoedd pe collid cydnabyddiaeth gilyddol (gan gynnwys rhai staff o'r UE sydd ar hyn o bryd yn gweithio ym mhrifysgolion y DU). Dylai'r Llywodraeth geisio sicrhau fod cymwysterau yn parhau i gael eu cydnabod yn yr un ffordd ag ar hyn o bryd.

- Mae angen ar Gymru allu recriwtio staff galluog a chanddynt gymwysterau uchel. Fe allai lleihau symudedd staff effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth mewn meysydd arbenigol.
- Mae ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi bod yn werthfawr o ran ysgogi hyfforddiant mewn sgiliau. Gobeithiwn y gwelir cyllid o ffynonellau eraill yn dod yn lle'r ariannu hwnnw.

Cwestiwn 2: I ba raddau y byddai colli cynllun symudedd ERASMUS+ yn effeithio ar y sector, a beth yw'r cyfleoedd ar gyfer cynlluniau symudedd eraill sy'n bod neu y gellid eu datblygu'n synhwyrol?

Mae myfyrwyr yn elwa'n sylweddol o'r cyfle i fynd dramor yn ystod eu cwrs. Mae Erasmus + wedi bod yn ddull gwerthfawr i gyfnewid myfyrwyr (a staff). Deallwn i dros 15,000 o fyfyrwyr y DU gymryd rhan yn 2015-16 a bod y niferoedd yn cynyddu. Mae ein caplaniaid Prifysgol yn ategu bod y rhaglen yn darparu cyfle gwerthfawr dros ben i brofi diwylliant gwledydd eraill ac elwa ar arbenigedd cydweithwyr mewn rhannau eraill o Ewrop. Rydym yn falch fod cytundeb Rhagfyr 15 yn darparu y bydd y DU yn gallu parhau i gymryd rhan yn Erasmus+ tan ddiwedd y rhaglen yn 2020.

Y perygl yw y bydd y DU yn syrthio tu ôl i wledydd eraill sy'n cystadlu â ni o ran galluogi myfyrwyr i ddilyn rhan o'u cyrsiau gradd mewn gwlad arall. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU yn cymryd rhan i'r graddau mwyaf posibl wrth ddylunio rhaglen i ddilyn Erasmus+ ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglen o'r fath.

Gobeithiwn y gwireddur cynigion i alluogi gwledydd y tu allan i'r UE gymryd rhan yn y rhaglen ddaw yn lle Erasmus+ ac y bydd Cymru yn gallu elwa ohonynt.

Cynaliadwyedd ariannol a chyfleoedd buddsoddi

Cwestiwn 3: Pa heriau posib y gallai Brexit eu cyflwyno o ran cynaliadwyedd ariannol sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch?

Mae myfyrwyr rhyngwladol yn rhan bwysig o 'economi Addysg Uwch'. Yn ôl adroddiad diweddar gan Viewforth Consulting ar gyfer Prifysgolion Cymru, bu i fyfyrwyr tramor (o'r UE a gwledydd eraill) gynhyrchu gwerth £716m o allbwn Cymru yn 2015/16 a swyddi yn gyfwerth â 6850 swydd lawn amser. Roedd gwariant gan fyfyrwyr tramor a'u hymwelwyr yn cyfateb i 3.7% o allforion Cymru.

Mae yna fyfyrwyr yng Nghymru o ryw 140 o wledydd gwahanol. Mae'r effaith economaidd yn sylweddol, ond cyn bwysiced yn ein canfyddiad ni yw cyfoeth yr amryfal gefndiroedd a thraddodiadau a ddaw i ganol ein cymunedau drwyddynt. Mae canran sylweddol o staff academaidd ac, yn enwedig, myfyrwyr uwchraddedig, o dramor.

Fe allai unrhyw ostyngiad o ran niferoedd o wledydd Ewropeaidd gael effaith amlwg, a phellgyrhaeddol, ar gynaliadwyedd ariannol rhai sefydliadau, ac felly ar gyfraniad y sefydliadau hynny i'w hardaloedd. Mae'r ffi uwch a delir gan fyfyrwyr yr UE wedi Brexit bron yn sicr o leihau nifer y myfyrwyr, er y gallai'r ffi uwch ynghyd â newidiadau yn y gyfradd gyfnewid wrthbwyso'r effaith hynny. Mae'n allweddol na ddylai fod yn anos i fyfyrwyr gael fisa nag ydyw ar hyn o bryd, a rhaid i Gymru barhau i fod yn lleoliad croesawgar a deniadol ar gyfer myfyrwyr tramor. Ni ddylai polisi mewnfudo filwrio yn erbyn hynny.

Bygythiad arall i gynaliadwyedd ariannol fyddai colli ariannu gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Yn amlwg, dylid gosod ffynonellau incwm amgen yn eu lle.

Cwestiwn 4: Pa mor ddibynnol yw cynlluniau buddsoddi sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar arian Ewropeaidd, a beth yw'r cyfleoedd ar gyfer ffynonellau cyllid buddsoddi eraill?

Fe fu Cymru yn elwa yn sylweddol o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, a bu nifer o golegau a phrifysgolion yn rhan o hyn. Bydd y Pwyllgor yn gyfarwydd â'r amrediad eang o gynlluniau gwerthfawr a gefnogwyd yn y ffordd hon – gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant sgiliau, nifer o gynlluniau

ymchwil am faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd, cefnogi arloesi a chymhwyso ymchwil.

Dylid sefydlu trefniadau newydd ar lefel y DU ac yn ddatganoledig yn lle'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, er mwyn sicrhau fod pwyslais ar arloesi. Deallwn fod Llywodraethau'r DU a Chymru yn ystyried sut orau i drefnu cyllido i'r dyfodol. Ond mae yna berygl amlwg y bydd unrhyw gyllid newydd yn llai o ran maint, yn llai sefydlog ac heb ei ddyfarnu yn ôl angen; dylai unrhyw drefniadau newydd osgoi symud i gyfeiriadau felly.

Cyllid a chydweithredu o ran ymchwil ac arloesi

Cwestiwn 5: I ba raddau y mae sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yn dibynnu ar gyllid ymchwil ac arloesi yr UE yn y dyfodol?

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 4. Mae gallu defnyddio cyllid yr UE wedi chwarae rhan sylweddol yng nghynllunio ariannol sefydliadau ac iddynt allu cyrraedd eu hamcanion.

Cwestiwn 6: Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, a beth ellir ei wneud i ddiogelu cydweithio a rhwydweithiau ymchwil yr UE wrth baratoi ar gyfer Brexit ac ar ôl hynny?

Bydd ymchwilwyr yn cydweithio â'r sawl sydd yn meddu ar y syniadau a'r mewnbwn mwyaf gwerthfawr ac i raddau nid yw hyn yn dibynnu ar drefniadau ariannu. Ond yn y gwyddorau ac yn gynyddol mewn meysydd eraill mae ariannu yn hanfodol ac yn y cyd-destun hwn fe fu Horizon 2020 yn hynod werthfawr. Croesawn gytundeb Rhagfyr 15, sy'n golygu y gall y DU aros yn rhan o Horizon 2020 a rhaglenni eraill yr UE sy'n rhan o'r fframwaith gyllidol gydwladol (MFF) tan ddiwedd 2020, a chymryd rhan lawn yn y cynlluniau hyny ar hyd eu hoes.

Y peryglon ar ôl 2020 yw y bydd prifysgolion y DU yn colli'r gallu i gyrchu ffynonellau ariannol fu'n hanfodol o ran cefnogi rhagoriaeth o ran ymchwil ac yr andwyir eu henw da fel cydweithwyr dethol. Gobeithiwn y bydd yr UE a'r DU yn gweithio er sicrhau y cytunir cytundeb cyfranogi i Raglen Fframwaith 9 (FP9) –y rhaglen ddaw yn lle Horizon 2020 – pan gaiff ei sefydlu. Yn y cyfamser dylai'r DU weithio i ddylanwadu ar siâp a phwyslais FP9. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn rhan o unrhyw drafodaethau felly ac yn chwarae rhan weithredol ynddynt.

Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn cefnogi camau a gymerir gan y sector a chan sefydliadau unigol i sicrhau cadw cyswllt ag ymchwilwyr ledled Ewrop.

Unrhyw faterion perthnasol eraill

Cwestiwn 7: A oes unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn?

Mae Addysg Uwch yn weithgarwch sylfaenol ryngwladol. Mae ymchwil ac ysgolheictod yn dibynnu ar gyfnewid syniadau a chydweithio yn fyd-eang; mae

symudiad myfyrwyr rhwng gwledydd yn sylweddol ac mae'r DU, wrth gwrs, wedi'i gwreiddio mewn ysgolheictod Ewropeaidd. Mae Cymru yn elwa yn sylweddol trwy ddenu academyddion ac ymchwilwyr safon uchel o bob rhan o'r byd. Gobeithiwn y bydd Llywodraethau'r DU a Chymru yn annog staff dysgu ac ymchwil i barhau i fod yn symudol, ac y byddant yn cadw golwg ar unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'w penderfyniadau polisi.